
**Glandŵr Cymru**
Canal & River Trust in Wales




## Dewch am dro i **Ddyfrbont Pontcysyllte**

Mae Dyfrbont Pontcysyllte a Basn Trefor ar Gamlas Llangollen wedi ennill Statws Treftadaeth y Byd. Mae hynny'n golygu eu bod mor bwysig â Chôr y Cewri!

**Map nid ar raddfa:** ardal o tua 1.5 milltir/2km

## Pwt bach o hanes

Cynlluniwyd Dyfrbont Pontcysyllte gan Thomas Telford a William Jessop, i gludo Camlas Llangollen ar draws Dyffryn Dyfrdwy. Ym 1805, cwblhawyd y gwaith o adeiladu'r colofnau carreg enfawr a'r cafn haearn bwrw 39 metr (127 troedfedd) uwchlaw'r afon. Dyma un o gampweithiau mwyaf y camlesi.

Gorau oll mae AM DDIM*

## Pum peth i'w gwneud ym Mhontcysyllte

- ☐ **Croeswch** y ddyfrbont ar droed – ond gobeithio nad oes gennych chi ofn uchder!
- ☐ **Ewch** ar daith cwch dros y ddyfrbont, mae'n union fel hofran i fyny fry yn yr awyr.
- ☐ **Chwiliwch** am y rhigolau ar reiliau'r ddyfrbont. Olion rhaffau'r cychod culion a oedd yn cael eu tynnu gan y ceffylau ydyn nhw.
- ☐ **Cerddwch** ar lan yr afon i weld y ddyfrbont o'r gwaelod. Mae'r pileri yn rhannol wag ac yn culhau tua'r brig, fel bod y ddyfrbont mor ysgafn â phosib.
- ☐ **Sylwch** ar adfeilion y ffowndrïau haearn, y gweithfeydd brics a'r odynnau calch a oedd ar hyd a lled yr ardal ers talwm. Cafodd yr ardal ei disgrifio fel 'golygfa o uffern' adeg oes Fictoria.

## Gwybodaeth

Dyfrbont Pontcysyllte
LL20 7YQ


- Parcio
- Toiledau
- Tafarn
- Canolfan Ymwelwyr (ar agor mis Mawrth – mis Hydref)
- Mainc bicnic
- Llogi cychod a theithiau
- Llwybr
- Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa
- Dylech neilltuo hanner diwrnod ar gyfer eich ymweliad.

***Cofiwch:**

Er bydd y safle ar agor bob amser, efallai na fydd y cyfleusterau a'r teithiau cychod ar agor ac y codir tâl am rai o bosibl. Mae'n werth i chi holi busnesau lleol cyn i chi fentro.

## Pethau i gadw llygad amdanyn nhw

Archwiliwch lan y dŵr gyda'ch gilydd.
Faint o'r rhain allwch chi eu gweld?



Hwyaden yn cwacian ☐




Rhif pont neu loc ☐




Pryfyn diddorol ☐



Carreg neu fricsen ddiddorol ☐



Enwau dau gwch ☐




Wyneb neu anifail yn y cymylau ☐






Ewch i **canalriverexplorers.org.uk** am lond gwlad o bethau i'w gwneud fel teulu.

Diolch o galon i'n holl wirfoddolwyr am helpu i lunio'r rhain – rydych chi'n gwybod pwy ydych chi.

© Glandŵr Cymru/Canal & River Trust Rhif 1146792
02/18
FSC